



ARGYFWNG NATUR CYMRU:

ARGYMHELLION AR GYFER YMATEB BRYD
AR UNWAITH

AM FWY O WYBODAETH:

WWF Cymru
Tŷ Churchill
17 Ffordd Churchill
Caerdydd CF10 2HH

Ffôn: 029 2045 4970
Ebost: wales@wwf.org.uk
Gwefan: wwf.cymru

Diolchiadau

Mae WWF Cymru yn ddiolchgar i Dr Paul Jepson a'i dîm yn Ecosulis am eu gwaith helaeth wrth greu'r sail i'r adroddiad hwn ac i'r unigolion o'r sefydliadau canlynol a ddarparodd eu harbenigedd drwy gydol y broses o ddatblygu'r offer polisi a nodir isod: 3 Keel; Adias; Prifysgol Bangor; Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog; Cymdeithas Ecolegol Prydain; Butterfly Conservation Wales; yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol; Cyfoeth Naturiol Cymru; Pasture-fed Livestock Association; Plantlife Cymru; PONT; Rare Breeds; Ymddiriedolaeth Afonydd Cymru; RSPB Cymru; TYF; Ymddiriedolaethau Natur Cymru; Coed Cadw.



Dros ddyfodol lle mae pobl a natur yn ffynnu | wwf.org.uk

© 1986 symbol y panda ac © "WWF" Nod Masnach Cofrestredig WWF. WWF-UK elusen gofrestredig (1081247) ac yn yr Alban (SC039593). Cwmni cyfyngedig drwy warant (4016725)

Delwedd y clawr: Alasdair James / iStock

Argyfwng Natur Cymru:
Argymhellion ar gyfer ymateb brys ar unwaith

CYFLWYNIAD

Yng ngwanwyn 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru argyfwng hinsawdd ac ecolegol. Roedd hwn yn gam cyntaf hollbwysig wrth fynd i'r afael ag un o heriau mwyaf ein hoes a chafodd ei groesawu'n helaeth.

Mae llywodraethau ledled y byd wedi cydnabod ers tro yr angen i weithredu i fynd i'r afael â newid hinsawdd ac mae'n fater sy'n uno pobl ar draws rhaniadau gwleidyddol. Mewn ymateb mae llawer, gan gynnwys llywodraethau Cymru a'r DU, wedi neilltuo adnoddau sylweddol i raglenni i leihau allyriadau carbon.

Er hynny, dim ond yn ddiweddar y mae maint llawn yr argyfwng ecolegol ehangach, neu'r argyfwng natur, wedi dechrau dod yn amlwg i wneuthurwyr polisi cenedlaethol. Mae'r ddealltwriaeth newydd hon yn arwain at gydnabod bod yna fwch gwybodaeth wrth lunio polisiâu ac at yr awydd i ddatblygu atebion polisi nid yn unig er mwyn atal rhagor o niwed ecolegol, ond hefyd i fynd ati i adfer natur ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Yng Nghymru, mae tystiolaeth o'r argyfwng ecolegol a wynebwn wedi bod yn cynyddu. Canfu *Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol* 2016 gan Cyfoeth Naturiol Cymru nad oedd holl nodweddion angenrheidiol cydnerthedd gan unrhyw un o'n hecosystemau.

Ers hynny, canfu *Living Planet Report* 2018 WWF fod meintiau poblogaethau bywyd gwyllt wedi gostwng 60% ar gyfartaledd yn fyd-eang ers 1970. Yn nes at adref, datgelodd adroddiad *Sefyllfa Byd Natur* 2019 fod 73 o'r 3,902 o rywogaethau a aseswyd yng Nghymru wedi'u colli eisoes, gydag adar fel y durtur a bras yr ŷd wedi diflannu erbyn hyn o'r awyr dros Gymru. Mae 666 o rywogaethau eraill dan fygythiad difodiant yng Nghymru. Mae toreithrwydd a dosbarthiad y rhywogaethau hyn yn cynnig dangosydd cryf o iechyd ehangach ecosystemau Cymru ac yn rhybudd clir bod angen camau gweithredu sylweddol.

Dadansoddodd adroddiad *Sefyllfa Byd Natur* hefyd y ffactorau sy'n sbarduno colli bioamrywiaeth ar draws y Deyrnas Unedig, sef:

- Rheoli amaethyddol
- Newid hinsawdd
- Newid hydrolegol
- Trefoli
- Rhywogaethau estron ymledol, plâu a phathogenau
- Llygredd
- Rheoli coetiroedd.

“Mae arnom angen natur i ddarparu ar gyfer ein hanghenion sylfaenol. Rydym yn dibynnu arni am aer a dŵr glân, priddoedd ffrwythlon, bwyd a hinsawdd sefydlog. Mae’n ein gwarchod rhag llifogydd, yn gwella ein lles meddyliol ac yn darparu lle i wella ein hiechyd corfforol”

– **Anne Meikle,**
Cyfarwyddwr WWF Cymru

Mae'r adroddiadau hyn, ynghyd â gwaith ymgyrchu gan bobl fel Greta Thunberg a rhaglenni teledu amlwg fel *Blue Plant II* y BBC ac *Our Planet* Netflix, wedi cynyddu'r galw oddi wrth y cyhoedd am weithredu i ymateb i'r argyfwng a wynebwn. Mae'r galwadau hyn wedi cael eu dangos gan y mudiad streiciau ieuenctid byd-eang a gweithredu uniongyrchol amlwg gan grwpiau fel Extinction Rebellion. O ystyried y rhain gyda'i gilydd, mae mudiad yn tyfu sy'n galw am ymateb manwl ac effeithiol gan wneuthurwyr polisi yng Nghymru.

Felly beth ddylid ei wneud i fynd i'r afael â'r argyfwng hwn, a pha gamau ddylai Llywodraeth Cymru eu cymryd i newid cyfeiriad graff colli bioamrywiaeth yng Nghymru cyn iddi fod yn rhy hwyr? Mae ateb y cwestiwn hwn wedi dod yn her hollbwysig i wneuthurwyr polisi Cymru. Nid yw'n dasg hawdd. Mae ein byd naturiol yn dibynnu ar gyfres hynod gymhleth o systemau cyd-ddibynnol, ac nid ydym yn deall yn llwyr ein dylanwad arnynt. Yn wahanol i rai meysydd polisi eraill, ychydig iawn o atebion syml â chanlyniadau uniongyrchol a rhagweladwy sydd.

Er mwyn cyfrannu at yr ymateb brys, gweithiodd WWF Cymru gyda'r ymgynghoriaeth ecolegol flaenllaw Ecosulis i gynhyrchu adroddiad synthesis ar y ffactorau sy'n sbarduno colli bioamrywiaeth yng Nghymru, ac offer polisi posibl i fynd i'r afael â hwy. Tynnodd ar gymwyseddau presennol Llywodraeth Cymru o fewn fframwaith deddfwriaethol unigryw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Y gwaith hwn oedd sail yr adroddiad cryno hwn.

YMATEB I ARGYFWNG NATUR CYMRU: PEDAIR FFRÂM BOLISI

Nododd yr adroddiad synthesis restr hir o offer polisi â'r potensial i fynd i'r afael â'r ffactorau sy'n sbarduno colli bioamrywiaeth yng Nghymru ac ymchwiliodd iddynt – ac ar yr un pryd tynnodd sylw at natur gymhleth y materion cysylltiedig, bylchau yn y data a fframweithiau deddfwriaethol sy'n datblygu.

Ar gyfer yr adroddiad cryno hwn, cydnabuo fod angen cwtdogi ar y rhestr hon. I wneud hynny, daeth WWF Cymru â grŵp bach o weithwyr proffesiynol ym maes polisi amgylcheddol ynghyd i nodi offer polisi a all fod yn rhan o'r ymateb brys i'r argyfwng ecolegol.

Ni nododd y broses hon ba offer polisi oedd y 'gorau', mewn modd mesuradwy, i Gymru eu cyflawni ar hyn o bryd. Er mai hy oedd ein dymuniad cychwynnol, cawsom ei bod yn anymarferol blaenoriaethu'n ddiffiniol o fewn system mor gymhleth, o ystyried yr adnoddau oedd ar gael, ac y byddai angen i hyn gael ei wneud fel rhan o drafodaeth lawer ehangach gyda'r holl randdeiliaid.

Yn lle hynny, chwiliasom am themâu cyffredin a dechreuasom ystyried pa rai o'r offer polisi oedd â'r potensial i weithio gyda'i gilydd i lunio trywydd ar gyfer ymateb ehangach i'r argyfwng ecolegol.

Mae hyn oherwydd, er y bydd gweithredu polisi uniongyrchol yn ysgogi newid, ni all gyflawni ei botensial i wneud hynny mewn gwactod. Yn lle hynny, mae angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y cyhoedd ehangach yn cael ei gynnwys; yn deall y cymhelliad dros weithredu; ac yn cysylltu'r camau gweithredu hyn â'r mudiad ehangach cynyddol i adfer natur. Mae'r ymagwedd hon yn gyson â dulliau gweithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a dylai sicrhau'r ymrwymiad angenrheidiol gan y cyhoedd i'r newidiadau y mae angen eu gwneud.

Daeth pedair ffrâm bolisi allan o'r broses hon sef **Uchelgaïs, Arloesi, Cydweithredu** a **Gwybodaeth**. Caiff manylion pob un o'r themâu hyn eu hesbonio yn eu hadrannau isod.

Ar draws y pedair ffrâm, argymhellwn ddeg offeryn polisi y gellir eu cyflawni ar unwaith o dan bwerau a fframweithiau presennol Llywodraeth Cymru. Er bod rhai'n cynnwys newidiadau bach yn unig i arferion presennol neu ddatblygiadau polisi sydd ar y gweill, gyda'i gilydd byddant yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar natur Cymru. Mae hyn yn cynnig egin ymateb gan Lywodraeth Cymru i'r argyfwng natur. Ar yr un pryd, bydd WWF yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid i ddatblygu a rhoi ar waith mentrau sy'n adeiladu ar y seiliau hyn i adfer natur Cymru yn y tymor hir.

Mae'r argymhellion yn cynnwys amrywiaeth o raddfeydd a bydd angen eu rhoi ar waith ar draws y llywodraeth trwy fecanweithiau gwahanol. Nid yw'r adroddiad hwn yn ceisio diffinio pob un o'r mecanweithiau hynny oni fo'n amlwg ar unwaith, gan fod y rhain yn debyg o newid. Yr hyn sy'n bwysig yw'r canlyniad maent yn ceisio ei gyflawni, yn hytrach na'r mecanwaith y cânt eu rhoi ar waith trwyddo.

Ffotograff gan Lukas Juhas

CRYNODEB O'R FFRAMIAU POLISI A'R ARGYMHELLION I LYWODRAETH CYMRU



UCHELGAÏS

- Ymrwymo i neilltuo 5% o'r gwariant blyneddol i gymell a chefnogi'r gwaith o adfer natur a brwydro yn erbyn newid hinsawdd.
- Rhoi terfyn ar achosion o lygredd amaethyddol osgoadwy.
- Ymrwymo i gael gwared ar yr holl osodiadau 'seilwaith llwyd' sy'n peri problemau yn systemau afonydd Cymru.



ARLOESI

- Cyflwyno cystadleuaeth gyhoeddus ar gyfer prosiectau peilot sy'n defnyddio atebion seiliedig ar natur i adfer bioamrywiaeth.
- Defnyddio cymalau 'Cynlluniau Arbrofol' Deddf yr Amgylchedd i ariannu a gwerthuso prosiectau peilot ym mhob un o'r saith rhanbarth Datganiad Ardal, mewn cydweithrediad â Cyfoeth Naturiol Cymru.



CYDWEITHREDU

- Ymrwymo i ddatblygu cronfa gydweithredol buddsoddi mewn natur yn y cynllun newydd ar gyfer Rheoli Tir yn Gynaliadwy er mwyn cymell a gwobrwyo gweithgareddau cydgysylltiedig ar raddfa tirwedd sydd wedi'u bwriadu i wella cydnherthedd ecosystemau lleol.
- Ei gwneud yn ofynnol i reolwyr tir gynnwys canlyniadau ymgynghoriadau sydd ar y gweill â chymunedau lleol er mwyn bod yn gymwys o dan y cynllun ar gyfer Rheoli Tir yn Gynaliadwy.
- Grymuso cymunedau i reoli tir sy'n eiddo i gyrff cyhoeddus ar gyfer prosiectau sy'n defnyddio datrysiadau wedi'u seilio ar natur i adfer bioamrywiaeth leol a chydnerthedd ecosystemau.



GWYBODAETH

- Cynnwys y syniadau diweddaraf ynghylch y dull rheoli ar lefel yr ecosystem a'r berthynas rhwng adferiad natur a llesiant i gwricwlwm cenedlaethol Cymru.
- Ei gwneud yn ofynnol i'r holl swyddogion cyhoeddus gael hyfforddiant ar y berthynas rhwng natur a llesiant.



Mae'r holl fframiau polisi a drafodir yn yr adroddiad hwn wedi cael eu cynllunio i weithio gyda'i gilydd. Pennu Uchelgaïs cadarn yw'r man cychwyn i ddweud stori'r Gymru gydnerth, doreithiog o natur y mae angen inni ei chreu fel ymateb i'r argyfwng a wynebwn.

Dylai Llywodraeth Cymru arwain y ffordd gydag ymateb polisi uchelgeisiol i'r argyfwng datganedig, sy'n symud y tu hwnt i'r geiriau sy'n cydnabod y broblem ac yn nodi'n glir ei bwriad i ymateb i'r her.

Yn ymarferol, golyga hyn fod angen i Lywodraeth Cymru fuddsoddi'n sylweddol mewn natur er mwyn sicrhau ei bod yn gadael Cymru mewn cyflwr gwell i genedlaethau'r dyfodol.

OFFER POLISI A ARGYMHELLIR

YMRWYMO I NEILLTUO 5% O'R GWARIANT BLYNYDDOL I GYMELL A CHEFNOGI'R GWAITH O ADFER NATUR A BRWYDRO YN ERBYN NEWID HINSAWDD.


Ar lefel y Deyrnas Unedig, mae WWF yn galw ar lywodraeth y DU i neilltuo o leiaf £42 biliwn o wariant cyhoeddus pob blwyddyn i ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur. Byddai gwneud hynny'n ein galluogi i fanteisio ar fuddion amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol enfawr ecosystemau iach a chydnerth, sydd mewn perygl ar hyn o bryd oherwydd newid hinsawdd a bygythiadau eraill.

£42BN
MAE WWF WEDI GOFYN
AM £42BN O WARIANT
CYHOEDDUS I YMATEB I'R
ARGYFWNG HINSAWDD
A NATUR AR LEFEL Y
DEYRNAS UNEDIG.

Mae'r swm hwn cyfwerth â rhyw 5% o holl wariant Llywodraeth y DU - neu oddeutu 2% o'r cynnyrch domestig gros. Mewn termau real, amcangyfrifwn fod Llywodraeth y DU yn gwario oddeutu £17 biliwn ar yr hinsawdd a natur ar hyn o bryd, a bod angen £25 biliwn ychwanegol.

Dyma'r gost yn y byd go iawn o ymateb i'r argyfwng a wynebwn. Mae cyfwerth yn fras â'r gyllideb amddiffyn, ac yn llawer llai na'r gyllideb ar gyfer llawer o feysydd polisi eraill.

O gofio mecanwaith cyllido Cymru, mae'n rhesymol i Lywodraeth Cymru roi o leiaf swm cyfwerth â'r ffigur cyllidebol o 5%, yn hytrach na chysylltu'r gwariant â chynnyrch domestig gros Cymru.



Ar hyn o bryd nid yw'n glir faint o gyllideb flynyddol Llywodraeth Cymru sy'n cael ei gwario ar yr hinsawdd a natur. Er enghraifft, ar hyn o bryd nid yw Llywodraeth Cymru'n gallu nodi ei gwariant blynyddol ar fioamrywiaeth.¹

Gall ddangos ei huchelgaïs trwy ymrwymo i wario 5% o'i chyllideb flynyddol ar gymell a chefnogi gwaith i adfer natur a brwydro yn erbyn newid hinsawdd. Gellir defnyddio'r cyllid hwn i ddatblygu a gweithredu'r newidiadau mawr mae angen iddynt ddigwydd fel rhan o'r ymateb tymor hirach i'r argyfwng natur, o fuddsoddi mewn safleoedd dynodedig i greu coedwig genedlaethol.

Ar sail ffigurau cyfredol, byddai hyn yn cyfateb i neilltuo rhyw £900 miliwn. Byddai hyn yn dal i fod yn sylweddol lai na'r swm sy'n cael ei wario ar yr holl adrannau eraill heblaw Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu ar hyn o bryd.

¹ <https://cofnod.cynulliad.cymru/WrittenQuestion/78811>

Mae Llywodraeth Cymru'n cymryd cam cadarnhaol i'r cyfeiriad hwn trwy bennu bioamrywiaeth fel un o themâu trosfwaol cyllideb 2020-21, ac mae wedi ymrwymo £140 miliwn ychwanegol o wariant cyfalaf ar gyfer prosiectau newydd. Mae hwn yn gam cyntaf i'w groesawu, y mae Prif Weinidog Cymru wedi'i alw'n "flaendal" ar yr hyn sydd i ddod. Byddai gwneud yr ymrwymiad hwn o 5% yn gam arwyddocaol tuag at gyflawni'r addewid hwnnw.

Un her allweddol sy'n datblygu yw'r cysylltiad rhwng adfer natur a gweithredu ar newid hinsawdd, a sicrhau nad yw'r ail yn tanseilio'r cyntaf. Er enghraifft, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau nad yw cynyddu dulliau adnewyddadwy o gynhyrchu ynni yn cael effeithiau negyddol ar ecosystemau sy'n agored i niwed ac ar fioamrywiaeth. At hynny, dylai geisio dod o hyd i gyfleoedd i gyfuno gwaith lliniaru ac ymaddasu i newid hinsawdd gyda gwaith i adfer natur, er enghraifft trwy blannu coed, adfer gwlyptiroedd ac adfywio priddoedd.

Ar lefel Cymru, nid yw'n bosibl ar hyn o bryd gwahanu â digon o hyder gwariant ar yr hinsawdd o wariant ar natur, felly nid yw'r adroddiad hwn yn ceisio gwneud hynny. Wrth i'r gwaith a'r adnoddau yn y maes hwn gynyddu fel rhan o ymateb brys Llywodraeth Cymru, dylai gwybodaeth a thryloywder gael eu cryfhau er mwyn sicrhau bod cynnydd yng ngwariant y llywodraeth yn sicrhau'r gwerth gorau posibl i natur, pobl a hinsawdd Cymru.

RHOI TERFYN AR ACHOSION O LYGREDD AMAETHYDDOL OSGOADWY.

Mae lefel achosion o lygredd amaethyddol osgoadwy yn afonydd Cymru yn fygythiad sylweddol i natur ac un sy'n galw am sylw brys². Gall llygredd o'r fath ladd pysgod a bywyd dyfrol arall ac mae'n cyfrannu at y rheswm pam mai dim ond un ym mhob chwe math o gynefin dŵr croyw yng Nghymru sydd â Statws Cadwraethol Ffafirol³. Mae'r achosion presennol yn ganlyniad i gymysgedd o ffactorau, gan gynnwys:

- topograffi tirwedd Cymru
- defnyddio nitradau a ffosffadau
- stiwardiaeth amgylcheddol annigonol ymysg carfan fach o reolwyr tir
- trefn gorfodi wan

Er nad llygredd amaethyddol yw'r unig fath o lygredd, mae'n broblem gydnabyddedig yng Nghymru. Byddai mynd i'r afael â digwyddiadau osgoadwy yn

sicrhau buddion enfawr o ran bioamrywiaeth a llesiant trwy gefnogi adferiad ecosystemau a physgodfeydd dŵr croyw.

Mae'r llywodraeth i fod i gyflwyno rheoliadau amaethyddol newydd yn 2020 a allai fod yn fan cychwyn da, ond nid rheoliadau yn unig yw'r ateb. Er mwyn bod yn effeithiol mae angen iddynt gael eu datblygu gyda rhanddeiliaid a'u cyflawni ochr yn ochr â chefnogaeth i well gwaith rheoli, gwasanaethau cyngor ac arferion gorfodi. Dylai Llywodraeth Cymru ategu'r ymagwedd hon trwy fod â'r uchelgais i arwain diwylliant lle nad yw unrhyw lygredd osgoadwy yn dderbyniol.

YMRWYMO I GAEL GWARED AR YR HOLL OSODIADAU 'SEILWAITH LLWYD' SY'N PERI PROBLEMAU YN SYSTEMAU AFONYDD CYMRU

Gall systemau afonydd ymadfer yn aruthrol pan gaiff cysylltedd ei wella. Er hynny, mae hen seilwaith fel coredau, argaeau a chwlferi cysylltiedig â melinau, gorsafoedd pŵer a'r tebyg yn dal i sefyll pan mae'r cyfleusterau hyn wedi cael eu dymchwel neu eu defnyddio at ddibenion eraill, gan darfu'n ddiangen ar lifoedd ecosystemau.

Mae CNC eisoes wedi cydnabod yr angen i fynd i'r afael â seilwaith llwyd ac mae wedi cael gwared ar rai gosodiadau, fel Cored Ynysowen.⁴ Fodd bynnag, nid oes gan CNC yr adnoddau i ganfod a chael gwared ar yr holl enghreifftiau y byddai eu dileu o'r budd mwyaf i natur.

I'r perwyl hwn, dylai Llywodraeth Cymru gydweithio â CNC i greu rhestr eiddo a rhestr ddosbarthu o'r holl seilwaith llwyd sy'n peri problemau mewn afonydd, ac ariannu rhaglen i gael gwared arnynt. Mae llawer o'r wybodaeth hon yn cael ei chasglu eisoes yn y cynlluniau rheoli dalgylchoedd afonydd presennol.

Byddai cael gwared ar osodiadau diangen a niweidiol yn adfer llif naturiol ein hafonydd, gan wella eu cydnetheredd yn wyneb newidiadau tymhorol; llifogydd; achosion o lygredd; a digwyddiadau mawr fel stormydd sy'n debygol o ddigwydd yn amlach oherwydd newid hinsawdd. Yn y tymor hirach, mae hyn yn hybu bioamrywiaeth trwy alluogi rhywogaethau a ddadleolwyd i ddychwelyd a thrwy alluogi cynefinoedd hanesyddol i ail-ffurfio.

² www.bbc.co.uk/news/uk-wales-46212790

³ Cyfoeth Naturiol Cymru. 2016. *Adroddiad Sefyllfa Byd Natur*

⁴ <https://naturalresources.wales/about-us/our-projects/river-projects/merthyr-vale-weir-removal/?lang=cy>



Dros y degawd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi arwain newid sylweddol yn y ffordd y caiff deddfwriaeth genedlaethol ei llunio, gan symud o ymagwedd ragnodol draddodiadol i'r hyn y gellir ei ddisgrifio'n fras fel ymagwedd a arweinir gan egwyddorion.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd yn enghreifftiau amlwg o'r ymagwedd newydd ac arloesol hon. Bwriedir i'r ddwy ddeddf weithio gyda'i gilydd i greu fframwaith o nodau, ymagweddau a rhwymedigaethau, ond i ganiatáu hyblygrwydd wrth eu gweithredu. Maent yn cymryd camau i ddatganoli strwythurau pŵer ac i annog y rhai sy'n ddarostyngedig iddynt i symud y tu hwnt i fusnes fel arfer. At hynny, mae Deddf yr Amgylchedd yn torri tir newydd wrth goleddu cysyniad 'adferiad natur' ac yn ei huchelgais i gydategu gwarchodaeth gydag adferiad.

Yn gyson â'r ymagwedd newydd hon, dylai Llywodraeth Cymru hybu a choleddu arloesi er mwyn datblygu dulliau newydd o lunio polisiau, a darparu'r adnoddau a'r cyfleoedd y mae eu hangen i'w gwireddu.



Wrth ddatblygu'r polisi hwn yn llwyddiannus, dylid:

- I. Ymgynghori ar feini prawf ar gyfer cynigion gan dimau unigol a rhai amlasiantaethol / rhanddeiliaid
- II. Darparu cyllid i gynorthwyo'r timau ar y rhestr fer i ddatblygu eu polisi neu gysyniad
- III. Hyrwyddo'r syniadau ar y rhestr fer er mwyn ennyn diddordeb a thrafodaeth
- IV. Sefydlu pwyllgor annibynnol i ddewis yr enillwyr
- V. Ei gwneud yn ofynnol i'r asiantaethau perthnasol (a'r llywodraeth) gyhoeddi ymateb agored i'r cynnig buddugol gan nodi cyfleoedd i'w roi ar waith.

OFFER POLISI A ARGYMHELLIR

CYFLWYNO AC ARIANNU CYSTADLEUAETH GYHOEDDUS AR GYFER PROSIECTAU PEILOT SY'N DEFNYDDIO ATEBION SEILIEDIG AR NATUR I ADFER BIOAMRYWIAETH

Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod nad oes ganddi fonopoli ar syniadau da. Ledled Cymru, mae unigolion a chymunedau'n datblygu eu hatebion eu hunain i'r problemau maent yn eu hwynebu. Ond maent yn cael trafferth i gael y gefnogaeth mae arnynt ei hangen. Byddai'r polisi hwn yn sefydlu cystadleuaeth genedlaethol agored i bawb i'w gwneud yn bosibl i syniadau addawol newydd gael eu datblygu, beth bynnag fo eu ffynhonnell.

Mae cystadlaethau o'r fath yn ffordd brofedig o ddianc o rigol y dull traddodiadol o lunio polisiau ac o gynnwys pobl newydd yn y drafodaeth. Sbardunodd dull tebyg yn yr Iseldiroedd newid yn y ffordd o reoli delta, o beirianeg afonydd i atebion seiliedig ar natur.

Ond dylai'r gystadleuaeth fod yn fan cychwyn yn unig. Nid yw Cymru erioed wedi bod yn brin o syniadau, ond mae'n rhaid i'r polisi hwn beidio ag arwain at nodi cynlluniau peilot y gadewir iddynt drengi ar ôl i'w cyllid ddod i ben. Mae'r polisi nesaf yn darparu cyfle i fynd â hyn ymhellach.

DEFNYDDIO CYMALAU ‘CYNLLUNIAU ARBROFOL’ DEDDF YR AMGYLCHEDD I GYLLIDO A GWERTHUSO PROSIECTAU PEILOT YM MHOB UN O’R SAITH RHANBARTH DATGANIAD ARDAL

Mae Deddf yr Amgylchedd yn cynnwys pwerau i weinidogion Cymru atal dros dro ofynion statudol “i dreialu dulliau newydd [...] i gyflawni rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol ... [gan] gynnwys datblygu neu gymhwyso dulliau, cysyniadau neu dechnegau newydd, neu gymhwyso neu ddatblygu ymhellach ddulliau, gysyniadau neu dechnegau cyfredol”.⁵

Mae potensial i’r pwerau hyn gael eu defnyddio mewn amrywiaeth o ffyrdd i goleddu dulliau arloesol o reoli tir, ond nid ymchwiliwyd yn llawn i hyn hyd yma. Mae’n siomedig nad yw uchelgais gwreiddiol Deddf yr Amgylchedd wedi cael ei wireddu eto.

Un dull dylai fod neilltuo lleoliadau ym mhob un o’r saith rhanbarth Datganiad Ardal at ddibenion cynnal a gwerthuso prosiectau peilot. Dylai hyn gael ei integreiddio â’r argymhelliad polisi blaenorol sef lansio cystadleuaeth i ganfod atebion newydd. Er enghraifft, pe bai enillydd y gystadleuaeth yn gynllun peilot i adfer rhostir, dylai CNC bennu lleoliad addas i fwrw ymlaen â’r cynllun, a dylai Llywodraeth Cymru ddarparu’r adnoddau i’w gyflawni a’i werthuso.

Ar wahân i enillwyr y gystadleuaeth, mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi pennu uchelgais polisi ar gyfer coedwig genedlaethol newydd. Fodd bynnag, mae gwaith sylweddol i’w wneud o hyd i fireinio’r golwg fydd ar hon ar lawr gwlad. Gellid defnyddio’r argymhelliad polisi hwn i arbrofi ynghylch sut a ble i ddefnyddio’r Goedwig Genedlaethol i greu system o ardaloedd adfer natur rhanbarthol.

Byddai defnyddio swyddogaeth Datganiadau Ardal Deddf yr Amgylchedd fel hyn hefyd yn ei gwneud yn bosibl datblygu ymagwedd ar sail lle (yn unol â’r flaenoriaeth a geir yn y Polisi Adnoddau Naturiol) a chyfrannu at anghenion amgylcheddol lleol mewn ffyrdd arloesol. Mae cyfyngu nifer yr arbrofion i un ym mhob rhanbarth Datganiad Ardal yn sicrhau bod y cynlluniau’n dal i fod yn rhwydd eu rheoli, ac y gellir neilltuo adnoddau digonol i’r gwaith o asesu eu heffaith.

⁵ Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Nodiadau Esboniadol, Adran 22.
http://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/3/pdfs/anawen_20160003_we.pdf

CYDWEITHREDU

Roedd yr argymhellion polisi yn y ffrâm flaenorol yn canolbwyntio ar greu cyfleoedd newydd i gydweithredu trwy ddwyn ynghyd pobl newydd â syniadau newydd a rhoi iddynt y gefnogaeth ofynnol i fynd â'r maen i'r wal. Ers ei dechrau, mae gan Lywodraeth Cymru hanes hir o goleddu cydweithredu a chymerodd gamau gyda Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn 2015 i'w sefydlu'n ffurfiol fel dull gweithio ar gyfer cyrff cyhoeddus. Yr her sydd wedi bod yw sicrhau bod cydweithredu gwirioneddol yn digwydd, yn hytrach na phrosesau ymgynghori sy'n drysu rhwng y gallu i ymateb a chyd-gynhyrchu diffuant syniadau o'u creu hyd at eu gwireddu.

Mae angen i Lywodraeth Cymru barhau i adeiladu ar yr uchelgais hwn trwy gyflwyno offer polisi sy'n gwella cydweithredu ac yn ei wneud yn ganolog i'r gwaith o fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd ac ecolegol mae Cymru'n ei wynebu.

Mae cyfleoedd i wella cydweithredu yn bodoli mewn llawer o sectorau. Fodd bynnag, gwyddom o adroddiad *Sefyllfa Byd Natur* 2019 mai rheoli amaethyddol anghynaliadwy yw'r ffactor mwyaf sy'n sbarduno dirywiad bioamrywiaeth. Wrth wneud y pwynt hwn, rydym yn cydnabod er bod ffermio anghynaliadwy yn un o achosion dirywiad natur, ffermio cynaliadwy yw'r ateb hefyd, a bod ffermwyr a rheolwyr tir eraill yn cydweithredu ar raddfeydd priodol yn hanfodol i adfer a chynnal bioamrywiaeth. O gofio hyn, rydym yn canolbwyntio ar y sector hwnnw er mwyn nodi cyfleoedd ar gyfer cydweithredu gwell a fydd yn fuddiol i fioamrywiaeth yng nghyd-destun deddfwriaethol Cymru.

OFFER POLISI A ARGYMHELLIR

YMRWYMO I DDATBLYGU CRONFA CYDWEITHREDOL BUDDSODDI MEWN NATUR YN Y CYNLLUN NEWYDD AR GYFER RHEOLI TIR YN GYNALIADWY ER MWYN CYMELL A GWOBROWYO GWEITHGAREDDAU CYDGYSYLLTIEDIG AR RADDFA TIRWEDD SYDD WEDI'U BWRIADU I WELLA CYDNERTHEDD ECOSYSTEMAU LLEOL.

EI GWNEUD YN OFYNNOL I REOLWYR TIR GYNNWYS CANLYNIADAU YMGYNGHORIADAU SYDD AR Y GWEILL Â CHYMUNEDAU LLEOL ER MWYN BOD YN GYMWYS O DAN Y CYNLLUN AR GYFER RHEOLI TIR YN GYNALIADWY

Cyn bo hir bydd Cymru'n ymadael â'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) ac mae gwaith ar y gweill i sefydlu cynllun ar gyfer Rheoli Tir yn Gynaliadwy i gymryd ei le. Mae'n debyg mai'r cynllun hwn fydd yr ysgogiad pwysicaf a fydd gan Lywodraeth Cymru i ddylanwadu ar arferion rheoli tir ar draws Cymru, felly mae'n hanfodol cael y maes polisi hwn yn iawn.

Mae'r PAC presennol wedi rhoi mwy o flaenoriaeth i gynhyrchu bwyd nag i weithgareddau gwledig eraill.

Bu angen i ffermwyr a rheolwyr tir eraill fynd ar ôl cymorthdaliadau er mwyn aros mewn busnes, ac mae eu gwaith i wella'r amgylchedd wedi cael ei danbriso ar y gorau a'i anwybyddu neu ei rwystro ar y gwaethaf. Mae hyn wedi gadael llawer o ffermydd mewn cyflwr gwael o ran hyfywedd ariannol ac wedi arwain at golli cydlyniant gwledig a chydnerthedd ecosystemau. Mae rheidrwydd amlwg i'r sector drawsnewid.



Y tu hwnt i ymrwymiad presennol Llywodraeth Cymru y "dylai'n cymorth yn y dyfodol fod yn seiliedig ar egwyddor cynaliadwyedd"⁶ bydd yn hanfodol i'r cynllun newydd gynnig cyfleoedd newydd a gwell i gydweithredu. Mae'r ymgynghoriad Ffermio Cynaliadwy a'n Tir yn cydnabod yr angen hwn (yn enwedig ynghylch Cominwyr), ond dylai fynd ymhellach er mwyn sicrhau gwell cydweithredu ymysg rheolwyr tir a rhwng rheolwyr tir a'u cymunedau lleol.

Awgrymwn i'r cynllun newydd wneud dau beth ychwanegol. Yn gyntaf, dylai dorri i ffwrdd o'r ymagwedd lefel fferm ac yn lle hynny defnyddio sail dystiolaeth y Datganiadau Ardal i gymhell a gwobrowyo rheolwyr tir sy'n cydweithio ar raddfa tirwedd. Yn y

⁶ Llywodraeth Cymru. 2019. Ymgynghoriad Ffermio Cynaliadwy a'n Tir.
<https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2019-07/dogfen-ymgynghori-brexid.pdf>



Ffotograff gan Pauliha / iStock

cynllun ar ôl Brexit, dylai Llywodraeth Cymru greu cronfa newydd sydd ar gael dim ond trwy brosiectau cydweithredol, lle mae rheolwyr tir mewn ardal benodol yn dod at ei gilydd i gyflawni canlyniad ar y cyd. Er enghraifft, pe bai Ddatganiad Ardal yn nodi'r angen am fwy o goetir mewn dalgylch afon penodol, gallai rheolwyr tir yn y dalgylch hwnnw gyflwyno cynnig ar y cyd i fynd i'r afael â hyn, a chael cyllid wedi'i neilltuo i'w gefnogi.

Ond mae angen i gydweithredu gwirioneddol gynnwys mwy na rheolwyr tir ac asiantaethau llywodraethol yn unig. Er mwyn cynnwys y gymuned yn fwy, cynigiwn fod yn rhaid i reolwyr tir, er mwyn bod yn gymwys o dan y cynllun ar gyfer Rheoli Tir yn Gynaliadwy, ymgorffori canlyniadau ymgynghoriadau parhaus â chymunedau lleol. Mae Datganiadau Ardal eisoes yn creu lle ar gyfer ymgynghori â chymunedau, ond nod yr argymhelliad polisi hwn yw cyflawni newid drwy roi rôl i gymunedau yn y broses o wneud penderfyniadau.

GRYMUSO CYMUNEDAU I REOLI TIR SY'N EIDDO I GYRFF CYHOEDDUS AR GYFER PROSIECTAU SY'N DEFNYDDIO ATEBION SEILIEDIG AR NATUR I ADFER BIOAMRYWIAETH LEOL A CHYDNERTHEDD ECOSYSTEMAU.

Byddai'r polisi hwn yn cyflwyno cyfleuster i rymuso cymunedau i gymryd drosodd y gwaith o reoli darnau o dir cyhoeddus (fel mannau gwyrdd trefol a chaeau neu ymylon ffyrdd nas defnyddir) at ddiben penodol datblygu a gweithredu prosiectau atebion seiliedig ar natur i adfer bioamrywiaeth leol a chydnerthedd ecosystemau. Byddai hyn yn cynnwys meini prawf cymhwysedd, egwyddorion rheoli ac adolygiadau perfformio cytunedig.

Byddai ehangu rheoli asedau naturiol gan y gymuned ar gyfer hamdden a chadwraeth natur yn darparu buddion o ran iechyd a llesiant, yn ogystal ag ymgysylltu cymunedau lleol â natur. Mae pobl yn fwy tebygol o ymrwymo i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd os ydynt yn teimlo bod ganddynt ran yn yr adnoddau dan sylw, a bod y llywodraeth yn ymddiried ynddynt i ddatblygu atebion sy'n diwallu anghenion lleol.

Byddai'r polisi hwn yn cyflawni egwyddorion llywodraethiant cydweithredol, gwella ecosystemau a llesiant, ac mae'n gyson ag ymagwedd seiliedig ar leoedd y Polisi Adnoddau Cenedlaethol. Byddai'n grymuso cymunedau i drefnu eu hunain i ddychmygu a siapia tirweddau'n well, cyflawni arferion rheoli tir boddhaus a datblygu mentrau newydd. Ar yr un pryd, byddai'n lleihau'r canfyddiad o 'bellter' rhwng cymunedau lleol a CNC. Byddai'n cefnogi dull safle-benodol a chyd-destun-benodol o reoli asedau tir y llywodraeth, yn sicrhau bod

asedau tir sy'n ymylol yn economaidd (fel darnau o goedwig sy'n anodd eu cyrraedd) yn cynhyrchu'r gwerth mwyaf posibl, ac yn cyfrannu at adfywio.



BYDDAI HAMDDEN A CHADWRAETH NATUR YN DARPARU BUDDION O RAN IECHYD A LLESIANT

Yn ddiweddar, mae prosiect Skyline⁷ wedi edrych ar ddichonoldeb perchnogaeth gymunedol ar dir ar raddfa lawer mwy na'r hyn a ragwelir yn yr argymhelliad polisi hwn, ond mae canfyddiadau'r prosiect ynghylch cwestiynau fel trosglwyddo cyfreithiol, llywodraethiant, cynaliadwyedd busnes ac effeithiau amgylcheddol yn dal i fod yn gyson â bwriad y prosiect hwn. Ochr yn ochr â hyn, yn y blynyddoedd diwethaf gwelwyd cymunedau yn cynnig creu gerddi ar dir cymunedol, ond mae cael caniatâd yn broses hir ac anodd. Byddai'r polisi newydd hwn yn ei gwneud yn gyflymach ac yn haws i bobl wneud gwahaniaeth.

Er mwyn i'r prosiectau rheoli gwirfoddol hyn lwyddo, mae'n debyg y bydd arnynt angen rhywfaint o gyllid, gan y bydd y rhan fwyaf ohonynt yn rhy fach i fod â model busnes cadarn. Un ffordd o gyflawni hyn fyddai rhoi i'r gymuned yr adnoddau mae'r awdurdod perthnasol yn eu gwario ar hyn o bryd ar gynnal a chadw'r tir dan sylw. Er bod y swm hwn yn debyg o fod yn fach (ar gyfer gwasanaethau fel torri gwair tymhorol, er enghraifft), byddai'n mynd rhywfaint o'r ffordd at ddarparu'r cyllid angenrheidiol ar gyfer buddsoddiad cyfalaf gan gymunedau i gefnogi eu gweithgareddau gwirfoddol.

⁷Project Skyline: <https://skyline.wales/about>

GWYBODAETH

Mae llwyddiant y polisiâu a drafodir yma yn galw am fecanweithiau y gall Lywodraeth Cymru eu defnyddio i wella gwybodaeth y cyhoedd ac arbenigwyr ynghylch y newid mae'n ceisio ei gyflawni. Bydd hyn yn galw am gyfuniad o ddiweddarau hen ddulliau a datblygu rhai newydd.

Mae'r offer polisi isod yn adlewyrchu lle mae'r cyfleoedd gorau gan Lywodraeth Cymru i gyfleu newid. Wrth wneud hynny, bydd yn hanfodol bod iaith newydd fframweithiau deddfwriaethol pwrpasol Cymru yn cael ei deall a'i choleddu'n llawn.



Mae cyfrifoldeb ar Lywodraeth Cymru i roi i bawb ddealltwriaeth o bwysigrwydd ecosystemau a'r ffordd y mae natur yn sail i lesiant cenedlaethol. Wrth i'r llywodraeth ddechrau ar ei hagenda i gyflawni newid trawsnewidiol yn ei system addysgol, mae cyfle euraidd i sicrhau bod gan y genhedlaeth nesaf grap da ar bwysigrwydd y dull rheoli ar lefel yr ecosystem ac adferiad natur, yn ogystal ag ymagwedd ddeddfwriaethol unigryw Cymru at reoli amgylcheddol trwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd.

EI GWNEUD YN OFYNNOL I'R HOLL SWYDDOGION CYHOEDDUS GAEI HYFFORDDIANT AR Y BERTHYNAS RHWNG NATUR A LLESIANT.

Yn ogystal â meithrin gwybodaeth arbenigol rheolwyr tir a gwybodaeth gyffredinol y cyhoedd, mae angen mwy o waith i ymestyn a gwella dealltwriaeth dechnegol yng ngwasanaeth sifil Cymru.

I'r perwyl hwn, argymhellwn ddatblygu hyfforddiant datblygiad proffesiynol gorfodol i'r holl staff yng nghyrrff cyhoeddus Cymru. Byddai hwn yn adlewyrchu'r gofynion a gyflwynwyd yn sgil Deddf Cydraddoldeb 2010. Dylai'r llywodraeth ddarparu cyngor statudol ar gaffael y fath hyfforddiant, gan bennu'r deilliannau dysgu gofynnol.

O dan y polisi hwn, byddai'r holl swyddogion yn cael yr hyfforddiant hwn fel rhan o'u proses ymgyswrtu, a byddid yn disgwyl i'r swyddogion sydd eu swyddi eisoes barhau i ddysgu am y datblygiadau diweddaraf trwy eu prosesau datblygiad proffesiynol parhaus.

OFFER POLISI A ARGYMHELLIR

GWREIDDIO'R DULL RHEOLI AR LEFEL YR ECOSYSTEM A'R BERTHYNAS RHWNG ADFERIAD NATUR A LLESIANT I ADDYSG CYMRU.

Er bod llawer o reolwyr tir ar flaen y gad o ran mynd i'r afael â cholli bioamrywiaeth a newid hinsawdd, ni allant ennill y frwydr ar eu pen eu hunain. Bydd maint yr argyfwng a wynebwn yn galw am weithredu gan bawb yng Nghymru.

Mae'r streiciau hinsawdd byd-eang eisoes wedi dangos angerdd pobl ifanc dros helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd a cholli bioamrywiaeth. Ond mae angen inni adeiladu ar yr angerdd hwn trwy eu galluogi i ddechrau datblygu atebion i'r dyfodol.

ARGYFWNG NATUR CYMRU:

ARGYMHELLION AR GYFER YMATEB BRYN AR UNWAITH



60% O BRINHAD

YN FYD-EANG, MAE POBLOGAETHAU RHYWOGAETHAU WEDI PRINHAW 60% ERS 1970

MAE **73** O RYWOGAETHAU WEDI DIFLANNU O GYMRU, AC MAE **666** O RAI ERAILL DAN FYGYTHIAD

FFACTORAU SY'N SBARDUNO COLLI BIOAMRYWIAETH



RHEOLI AMAETHYDDOL



NEWID HINSAWDD



NEWID HYDROLEGOL



TREFOLI



RHYWOGAETHAU ESTRON YMLEDOL, PLÂU A PHATHOGENAU



LLYGREDD



RHEOLI COETIROEDD

YN 2019, CYHOEDDODD LLYWODRAETH CYMRU ARGYFWNG HINSAWDD AC ECOLEGOL. MAE WWF WEDI NODI 10 ARGYMHELLIAD POLISI Y GELLIR EU CYFLAWNI AR UNWAITH FEL RHAN O YMATEB BRYN LLYWODRAETH CYMRU.



UCHELGAIS

Ymrwymo i neilltuo 5% o'r gwariant blynyddol i gymell a chefnogi'r gwaith o adfer natur a brwydro yn erbyn newid hinsawdd.

Rhoi terfyn ar achosion o lygredd amaethyddol osgodwy.

Ymrwymo i gael gwared ar yr holl osodiadau 'seilwaith llwyd' sy'n peri problemau yn systemau afonydd Cymru.



ARLOESI

Cyflwyno cystadleuaeth gyhoeddus ar gyfer prosiectau pilot sy'n defnyddio atebion seiliedig ar natur i adfer bioamrywiaeth.

Defnyddio cymalau 'Cynlluniau Arbrofol' Deddf yr Amgylchedd i gyllido a gwerthuso prosiectau pilot ym mhob un o'r saith rhanbarth Datganiad Ardal, mewn cydweithrediad â Cyfoeth Naturiol Cymru.



CYDWEITHREDU

Ymrwymo i ddatblygu cronfa gydweithredol buddsoddi mewn natur yn y cynllun newydd ar gyfer rheoli tir yn gynaliadwy.

Ei gwneud yn ofynnol i reolwyr tir gynnwys canlyniadau ymgynghoriadau sydd ar y gweill â chymunedau lleol.

Grymuso cymunedau i reoli tir sy'n eiddo i gyrff cyhoeddus i adfer bioamrywiaeth leol.



GWYBODAETH

Cynnwys y syniadau diweddaraf ynghylch y dull rheoli ar lefel yr ecosystem a'r berthynas rhwng adferiad natur a llesiant i addysg Cymru.

Ei gwneud yn ofynnol i'r holl swyddogion cyhoeddus gael hyfforddiant ar y berthynas rhwng natur a llesiant.